- a) Galluogi pob plentyn i ddatblygu i'w lawn botensial.
- b) Sicrhau bod pob plentyn yn cael ei gyflwyno i'r etifeddiaeth Gymreig.
- c) Rhoi cyfle i bob plentyn ddatblygu fel aelod llawn o gymdeithas sy'n prysur newid.

Amcanion Cyffredinol

- 1 Datblygu sgiliau llafaredd, llythrennedd a rhifedd yng nhyd-destun symbylu chwilfrydedd, dychymyg a diddordeb y plentyn.
- 2 Cynyddu gwybodaeth y plentyn a datblygu ei allu i resymu er mwyn ei gynorthwyo i addasu i fyd sy'n cyflym newid ac yn mynd yn fwy soffistigedig yn ei brosesau a'i dechnegau, yn arbennig mewn perthynas â thechnoleg gwybodaeth.
- 3 Creu ym mhob plentyn yr awydd i geisio am fwy o wybodaeth a phrofiadau yn ystod ei fywyd, a datblygu ei feddwl a'i synnwyr moesol ac ysbrydol.
- 4 Cynorthwyo'r plentyn i fedru byw gweithio gydag eraill a datblygu agweddau fydd yn ei alluogi i fod yn aelod cyfrifol o gymdeithas.
- 5 Datblygu yn y plentyn sensitifrwydd, gwerthfawrogiad esthetig a sgiliau hamdden.
- 6 Rhoi sylw arbennig i bob plentyn sydd ag anghenion arbennig, ee, rhai sydd dan anfanteision amrywiol.
- 7 Cyflwyno syniadau a chysyniadau a hynny trwy ddulliau bywiog a deinameg sy'n hawlio ymateb y disgybl.

Mae'n ofynnol i bob ysgol baratoi a datblygu cynllun cynhwysfawr, yn seiliedig ar ddogfen yr Awdurdod Addysg ac yn unol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Bydd y cynllun hwn yn cynnwys manylion am yr cwrs addysg a'r modd y mae'n cael ei weithredu er mwyn sicrhau bod yr addysg a gyfrennir i'r disgyblion yn cyfarfod yn llawn â'r amcanion sydd yn y ddogfen.

THE CURRICULUM

In accordance with the requirements of the Education Act 1986, the Education Authority has formed, and intends to review regularly, a written statement of policy regarding the secular curriculum. The requirements of the National Curriculum will be interpreted in the light of the Authority's present policies and philosophy.

Quoted below are the introduction and general aims of the statement as seen in the Education Authority's document.

Introduction

The aim of an education system is to create situations and provide resources that will enable each child to develop a full personality, to develop and exercise all his or her abilities, to provide for the pupil in accordance with his/her age, ability and aptitude, so that he/she is able to become a responsible member of a bilingual society, able to contribute to that society and benefit from it, and to live in peace and fraternity with fellow men.

There are three inter-related aspects to the general statements i.e. the need:

- a) To enable each child to develop his/her full potential.*
- b) To ensure that each child is introduced to his/her Welsh heritage.*
- c) To give an opportunity for each child to develop as a full member of a rapidly changing society.*

General Objectives

- 1 To develop oral, literary and numerical skills in the context of inspiring the child's enthusiasm, imagination and interest.*
- 2 To increase the child's knowledge and to develop his powers of reasoning in order to assist him to adapt to a rapidly changing world which has more sophisticated processes and techniques, in particular in relation to information technology.*
- 3 To create in each child the desire to seek further knowledge and experience during his life and to develop his powers of mind, his moral and spiritual awareness.*
- 4 To assist the child to live and work with others and to develop attitudes which will enable him/her to become a responsible member of the community.*
- 5 To develop sensitivity, aesthetic appreciation and leisure skills in the child.*
- 6 To provide particular attention for each child with special needs e.g. for the exceptionally able and for those with various disadvantages.*
- 7 To present ideas and concepts by employing lively and dynamic methods which will motivate pupils' response.*

It is necessary for every school to prepare and develop a comprehensive plan based on the Education Authority's document. This plan will include details of the education course and the way it is operated in order to ensure that the education given to the pupils meets fully with the aims of the document.

**DATGANIAD O AMCANION CWRICWLAIDD
Y CORFF LLYWODRAETHOL**

1. Datblygu eu sgiliau darllen, eu deallusrwydd a'u gwerthfawrogiad beirniadol o bob math o lyfrau, ac i ymgynraedd at wneud darllen yn orchwyl naturiol a phleserus i barhau trwy eu bywydau.

Pwysleisir rhuglwydd a theimlad i'r hyn maent yn darllen. Ymestyn ystod, dyfnder a safon eu hysgrifennu. Galluogi'r plant i gyfathrebu'n glir, i drafod syniadau, teimladau a'u arsylwadau, gan ddefnyddio'r potensial yma yn arf effeithiol i ddatblygu teimladau, dealltwriaeth a'u syniadaeth.

2. Datblygu llawysgrifen ddarllenadwy, a'r safon uchaf mewn sillafu, llythrennu cystrawennu, atalnodi a'r defnydd o eiriau
3. Cyfathrebu'n glir a hyderus ar lafar mewn ffyrdd sy'n briodol ar gyfer amrywiol achlysuron a dibenion.
4. Ymestyn a chadarnhau eu gallu a'u parodrwydd i wrando ac ymateb i eiriau a synau gyda dealltwriaeth.
5. Dysgu sut mae cael gafael ar wybodaeth o wahanol ffynonellau, a chofnodi gwybodaeth a darganfyddion mewn amrywiol ffyrdd.
6. Cymhwyso medrau cyfrif yn gyflym ac yn gywir.
7. Datblygu eu cysyniadau a'u sgiliau mathemategol yn unol â photensial pob plentyn, a'u galluogi i ddirnad perthnasedd mathemateg yn y byd sydd o'u cwmpas.

8. Arsylwi ar bethau byw a phethau difywyd ac adnabod nodweddion megis patrwm a threfn.
9. Meistrioli syniadau Gwyddonol sylfaenol.
10. Ymchwilio i ddatrysiadau a dehongli tystiolaeth dadansoddi a datrys problemau.
11. Meithrin ymwybyddiaeth o'i hunan a sensitifrwydd i eraill, datblygu set o werthoedd moesol a'r hyder i wneud ac arddel barn foesol, a meithrin arferion hunan-ddisgyblaeth ac ymddygiad derbyniol.
12. Datblygu eu hymwybyddiaeth, gwybodaeth a'u gwerthfawrogiad o'u hamgylchedd. Bod yn ymwybodol o'r agweddau daearyddol, hanesyddol a chymdeithasol sy'n bodoli'n yr amgylchedd leol. Dylid hefyd greu ymwybyddiaeth o'u treftadaeth genedlaethol.
13. Datblygu eu gallu i wneud pethau â'u dwylo, gan feithrin ynddynt sensitifrwydd wrth drin offer a deunyddiau a hunan reolaeth wrth drin arfau llaw i allu mynegi eu hunain drwy'r celfyddydau creadigol a mynegiannol.
14. Datblygu eu galluoedd corfforol - drwy feithrin ystwythder a chydgyssylltu corfforol, a hefyd meithrin hyder mewn gweithgareddau corfforol, a thrwy hyn gallu i fynegi teimlad drwy symud.

**A DECLARATION OF THE GOVERNING BODY'S
CURRICULAR AIMS**

1. *Develop the children's reading skills, intelligence and critical appreciation of all kinds of books, and aim to make reading a natural and pleasurable undertaking, which will continue throughout their lives.*

Importance will be placed on fluency and feeling in their reading and on extending the range, depth and standard of writing, enabling the children to communicate clearly, discuss ideas, feeling and observations, using this potential as an effective instrument to develop feelings, understanding and concepts.
2. *Develop indelible handwriting, and the highest standard in spelling, lettering, syntax, punctuation and use of words.*
3. *Communicate verbally with clarity and confidence in ways which are suited to various events and purposes.*
4. *Extend and confirm their ability and willingness to listen and respond to words and sounds with understanding.*
5. *Learn how to glean information from different sources, and record information and findings in different ways*
6. *Apply counting skills quickly and accurately.*
7. *Develop mathematical skills and concepts in accordance with each child's potential, enabling them to understand the relevance of mathematics in the surrounding world.*

8. *Observe animate and inanimate objects and identify characteristics such as pattern and order.*
9. *Master basic scientific ideas.*
10. *Investigate solutions and interpret evidence; analyse and solve problems.*
11. *Nurture self-awareness and sensitivity towards others, develop a set of moral values and the confidence to form and uphold moral judgements, and nurture the practice of self-discipline and acceptable behaviour.*
12. *Develop their awareness, knowledge and appreciation of their environment and of the geographical, historical and social aspects which exist in the local environment. An awareness of national heritage should also be installed in the children.*
13. *Develop the children's ability to work with their hands, nurture their sensitivity when handling equipment and materials and their self-control when using hand tools, so as to enable them to express themselves through the creative and expressive arts.*
14. *Develop their physical abilities - by nurturing physical ability and co-ordination. Also nurture confidence in physical activities, and in doing so, develop the ability to express feeling through movement.*

TREFNU'R DYSGU

Ar hyn o bryd, rhennir yr ysgol yn pedwar uned addysgu, dwy ar gyfer y Babanod, dwy ar gyfer y plant Iau ac ychwanegol. Cyfartaledd maint y dosbarthiadau yw 25.

Gweithia'r plant ar eu cyfnod datblygiadol, gyda gofal arbennig yn cael ei roi i'r rhai hynny sydd angen cymorth ychwanegol.

Yn aml, caiff plant eu grwpio yn ôl eu gallu o fewn y dosbarth a defnyddir amrywiaeth o strategaethau addysg gan gynnwys addysgu dosbarth cyfan, gwaith grwp a rhaglenni dysgu unigol.

Ystyriwn fod y plant bob amser yn unigolion annibynnol, gyda'u cryfderau a'u gwendidau eu hunain.

Dynodir plant sydd angen cymorth ychwanegol gan eu hathro dosbarth. Bydd cyd-gysylltydd anghenion arbennig yr ysgol, ynghyd ag athro cefnogi dysgu yn cynorthwyo'r athro dosbarth i ffurfio rhaglen waith ar gyfer y disgybl.

Hysbysir y rhieni o'r gwaith a wneir.

Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer plant gydag anghenion dysgu ychwanegol, meddygol neu fugeiliol.

Gwahoddir rhieni i drafod unrhyw anghenion o'r fath yn gyfrinachol gyda'r Pennaeth.

TEACHING ORGANISATION

The school is organised at present into four teaching units, two Infants, two Juniors. The average class size is 25.

The children work at their developmental stage with special care being given to those needing extra help.

Children are often grouped by ability within the classroom and a variety of teaching strategies are used in each class including whole class teaching, group work and individual programmes of work.

At all times, we consider children as individuals in their own right with their own strengths and weaknesses.

Pupils requiring extra help are identified by their class teacher. The School's Additional Educational Needs co-ordinator, together with the Learning support Teacher will help the class teacher formulate a programme of work to assist the pupil.

Parents are kept informed of the work being carried out.

The school caters for children with Special, medical, or pastoral needs.

Parents are invited to discuss any such needs confidentially with the Headteacher.

TREFNIADAETH DOSBARTHU'R PLANT

Trefnir yr ysgol yn Unedau Dysgu fel a ganlyn gydag un athro/awes yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb o fod yn arweinydd yr Uned honno. Ceisiwn sicrhau cydbwysedd o ran niferoedd a chreu unedau gyda dim mwy na dwy flynedd ystod oed (ar wahân i'r Uned Anghenion Arbennig). Y nod yw trefnu'r plant mewn dosbarthiadau fydd yn sicrhau cydadwaith byw ar lafar ac yn ysgrifenedig rhwng athro a phlentyn, rhwng athro a dosbarth cyfan, a rhwng plentyn a phlentyn mewn grwpiau.

Trefnir y dosbarthiadau mewn grwpiau am ran helaeth o'r diwrnod.

CLASS ORGANISATION

All classes are organised in teaching units with one of the class teachers undertaking the responsibility of leading the team of teachers. We aim for a fair balance of pupils per class, allowing no more than two teaching years within each class (except for the Special Needs Class). Our aim is to arrange within classes a sound basis of communication and understanding between the teacher and pupil, between teacher and class and between pupil and pupil within the group structure.

Classes are organised within the group system for most of the day.

UNED UNIT	Blwyddyn YEAR	ATHRO / AWES TEACHER	ARWEINYDD LEADER
1	M	Miss Anwen Williams	Mrs Menna Jones
	0	Mrs Menna Jones Miss Carys Jarvis (Gweinyddes Feithrin)	
2	1	Mrs Ceri Ebery	Mrs Elain Williams
	2	Mrs Elain Williams	
3	Year 3	Mrs Einir Evans	
	4	Mrs Angharad Gwalchmai	
4	5	Ms Ellyw Evans	Ms Ellyw Evans
	6	Ms Rhiell Elidir Mrs Elen Mason Mrs Lynda Williams	
5	1/2/3/4/5/6	Mrs Angharad Gwalchmai	Mrs Angharad Gwalchmai

AMSER AR GYFER DYSGU / TEACHING TIME

PATRWM GWAITH

Ceisir sicrhau bod yr addysg a ddarperir yn hybu datblygiad moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol pob disgybl a bod natur y cwricwlwm cyflawn yn wahaniaethol, eang a chytbwys. I ymateb â'r gofynion hyn bydd trefniadaeth y dosbarth yn hyblyg; weithiau darperir gwaith ar sail oedran plant, dro arall bydd plant o ystod oedran sy'n rhychwantu mwy nag un flwyddyn ysgol yn cydweithio ar yr un dasg. Dysgir y plant fel uned ddosbarth fydd o dan ofal un athrawes/athro sefydlog.

Yn ôl canllawiau Cyngor Cwricwlwm Cymru cynllunir y cwricwlwm ar sail deg agwedd ar ddysgu gan gynnwys y pynciau craidd a sylfaen. Nodir cyfraniad y meysydd hyn mewn dull systematig yng nghofnodion yr athro/athrawes. Er mwyn sicrhau nag eithrir elfennau hanfodol o'r cwricwlwm cyflwynir y profiadau a'r gweithgareddau i blant yn draws-ddisgyblaeth drwy ddilyn themau penodol.



WORK PATTERN

The aim is to try and ensure that the education provided enhances the spiritual, moral, cultural, mental and physical development of each pupil and that the nature of the complete curriculum is varied, expansive, and balanced. In order to fulfil these needs the class organisation will be flexible; work will sometimes be given according to the child's age, at other times children of different age groups spanning more than one school year will work together on one task. The children will be taught as a class unit in the care of one designated teacher.

In accordance with the Curriculum Council for Wales' proposal, the curriculum is planned on the basis of ten aspects of learning including the core and foundation subjects. The contribution of these subjects is noted systematically in the teacher's notes. By giving children tasks and experiences based on specific themes, or on an interdisciplinary basis, the school will seek to ensure that all essential elements of the Curriculum are introduced.

CYNLLUNIO

Gweithredir drwy thema ymhob dosbarth. Fel arfer, fe fydd yn thema ysgol gyfan - lle y gellir gweld y dilyniant o'r Babanod i'r Adran Iau.

Pwyslais bob tymor sydd i'r thema, ac yn troi o fewn cylch 2 flynedd. Mae holl agweddau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn cael eu cwmpasu yn y thema. Dewisir llinynnau sy'n cydreddeg er mwyn dangos cyswllt o fewn gwyddoniaeth. Bydd iaith yn digwydd o hyd, gan fod iaith yn gyfrwng y cyfathrebu a'r cofnodi ac mae sgiliau mathemateg yn hanfodol i wahanol agweddau.

Dewisir agweddau arbennig o Fathemateg gan yr athrawon dosbarth ac fe gefnogir hyn trwy ddefnyddio llyfrau gwaith cyfresi cyhoeddiedig.

Byddwn yn ceisio cyflwyno agweddau o waith Mathemateg a Gwyddoniaeth drwy thema, os yw'n cynnig cyfle. Byddwn yn rhoi llawer o sylw i waith pen.

Gosodir tasgau gwaith i'r plant eu cwblhau, ac mae'r athro yn sensitif bod yn rhaid gwneud darpariaeth ar gyfer rhai plant e.e:

- darllen y cyfarwyddiadau iddynt
- helpu i gadw dilyniant
- annog i gwblhau
- holi cwestiynau pellach i ymestyn dealltwriaeth
- darparu gwaith ar lefel uwch / is
- gosod gwaith yn drefnus
- annog taclusrwydd
- bod yn gynhaliaeth ddibynadwy
- magu hyder

PLANNING

Themes are used in every class. Usually, it will be whole school theme-where progression may be observed in the work produced from the Infants to Juniors.

Emphasis is placed on a whole term theme, which revolves within a 2 year cycle. All aspects of the National curriculum are included. In order to demonstrate a link within science, parallel strands are selected. Language always occurs - as language is a medium of learning and mathematic skills are essential in various aspects.

Specific aspects of Mathematics are selected by the class teachers and the work set is supported by activities and tasks included in the published Maths schemes. Aspects of mathematical and scientific work will be presented by means of a theme, within specific opportunities. Much attention is given to mental work.

The children are set working tasks to complete and the teachers will display sensitivity in recognising that some children require special provision eg:

- *to read the instruction*
- *to assist in maintaining progression*
- *to encourage the child to complete the task*
- *to ask further questions so as to extend/secure an understanding*
- *to provide work at a higher/lower level*
- *to set out the work in an organised manner*
- *to offer reliable support*
- *to foster confidence*

HYDREF		GWANWYN		HAF	
Blwyddyn 1					
Uned 1 a 2	Cartrefi Ffordd Cadfan/ Bryn Paderau	Uned 1 a 2	Tyfu O'r nyth daeth wy	Uned 1 a 2	Teithio
Uned 3	Cartrefi	Uned 3	Fi fy Hun	Uned 3	Teithio
Uned 4	Cartrefi	Uned 4	Fi fy hun/ fy nghorff	Uned 4	Teithio
Blwyddyn 2					
Uned 1 a 2	Y filltir sgwar Ysgol	Uned 1 a 2	Y rhod yn troi Cylchoedd	Uned 1 a 2	Cylchoedd Glan y Mor
Uned 3 a 4	Dydd a Nos/ Tywyn	Uned 3	Y Fasedd Siopa	Uned 3 a 4	Ffair
Uned 5 a 6	Dilyn afon Ein Bro	Uned 4	Bwyd	Uned 5 a 6	Cyfathrebu

YSGOL PENYBRYN, TYWYN

THEMATIC PLANNING

TWO YEAR PLAN

AUTUMN		SPRING		SUMMER	
Year 1					
Unit 1 and 2	Homes Ffordd Cadfan/ Bryn Paderau	Unit 1 and 2	Growing O'r nyth daeth wy	Unit 1 and 2	Travelling
Unit 3	Homes	Unit 3	Ourselves	Unit 3	Travelling
Unit 4	Homes	Unit 4	Ourselves	Unit 4	Travelling
Year 2					
Unit 1 and 2	Our Locality School	Unit 1 and 2	Changes Circles	Unit 1 and 2	Circles The Sea Shore
Unit 3 and 4	Day and Night/ Tywyn	Unit 3	The Shopping Basket	Unit 3 and 4	The Fair
Unit 5 and 6	The River Neighbourhood	Unit 4	Food	Unit 5 and 6	Communication

POLISI IAITH

AMCANION CYFFREDINOL

Mae Awdurdod Addysg Gwynedd yn gweithredu polisi dwyieithog trwy holl ysgolion Gwynedd a hefyd yn datblygu polisi dwyieithog ar gyfer sefydliadau Addysg Bellach.

Yr amcan yw datblygu gallu disgyblion a myfyrwyr y sir i fod yn hyderus ddwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.

Dylai holl sefydliadau addysg y sir adlewyrchu ac atgyfnerthu'r polisi iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth academaidd.

AMCANION PENODOL

DEFNYDDIO'R GYMRAEG A'R SAESNEG

- credwn fod gan holl blant yr ysgol hon hawl i dyfu yn ddinasyddion dwyieithog.
- parchwn famiaith pob disgybl a cheisiwn eu hannog i ddatblygu eu hyfedredd yn eu hail iaith, boed honno yn Gymraeg neu'n Saesneg.
- mae nodau ieithyddol yr ysgol hon yn unol â nodau Polisi Dwyieithog yr Awdurdod Addysg.

Gweithredir y polisi drwy:

- sicrhau yn y dosbarth derbyn, trwy ddarpariaeth a threfniadaeth feithrin bwrpasol a sensitif, y rhoddir i bob plentyn sylfaen gadarn yn y Gymraeg er mwyn ei (g)alluogi i gyrraedd y nod o ddwyieithrwydd llawn maes o law.
- adeiladu ym mlyneddod 1 a 2 ar y sylfaen a osodwyd i'r Gymraeg drwy addysg feithrin, cadarnhau a datblygu mamiaith y plentyn o ddysgwyr Cymraeg ac ymestyn gafael y plentyn o gartref Cymraeg ar y Saesneg.
- yng Nghyfnod Allweddol 2, cadarnhau a datblygu Cymraeg a Saesneg pob plentyn yn eu holl agweddau goddefol a gweithredol, er mwyn sicrhau ei fod/bod yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'n rhwydd a hyderus yn y ddwy iaith pan fo'n trosglwyddo i'r ysgol uwchradd.
- y Gymraeg yr iaith gyfathrebol yr ysgol hon.

Fe'i defnyddir:

- Yng ngweinyddiad dydd i ddydd yr ysgol.
- Fel yr iaith achlysurol (tu allan i sesiynau dysgu)
- Fel iaith gwasanaethau boreol a chynulliadau torfol.

Y Gymraeg fydd prif iaith cyfrwng y dysgu - yn cyflwyno ac yn cofnodi - ar draws y cwricwlwm.

Cyflwynir y Saesneg yn raddol yn cyfnod sylfaen ac yna cynyddir ei defnydd yn gyson trwy Gyfnod Allweddol 2 i gyflwyno a chofnodi - fel y disgwylir y gall pob plentyn ei defnyddio'n hyderus i ymwneud ag amrywiol feysydd y cwricwlwm erbyn B6.

LANGUAGE POLICY

GENERAL AIMS

Gwynedd Education Authority operates a bilingual policy in all its schools and is also developing a bilingual policy for the Further Education establishments within the county.

The aim is to develop the ability of pupils and students within the county to be confidently bilingual in order that they can be full members of the bilingual society of which they are a part.

All educational establishments within the county should reflect and reinforce the language policy in their administration, their social life and pastoral arrangements as well as their academic provision.

SPECIFIC AIMS - USE OF WELSH AND ENGLISH

- *we believe that all children at this school are entitled to become bilingual citizens.*
- *we respect every pupil's mother-tongue and seek to encourage them to become proficient in their second language, be it Welsh or English.*
- *this school's linguistic objectives comply with those of the Education Authority's Bilingual Policy.*

The policy is implemented by:

- *ensuring in the reception class, through purposeful and sensitive provision and arrangements, that each child acquires a sound grounding in Welsh so as to enable him (her) to eventually achieve the objective of becoming fully bilingual.*
- *build in years 1 and 2 upon the foundations laid for Welsh through nursery education, reinforce and develop the mother-tongue of the Welsh-learner child and extend the grasp of the child from a Welsh speaking home, of English.*
- *at Key Stage 2, reinforce and develop the Welsh and English of each child in all their active and passive aspects, so as to ensure that they are able to speak, read and write both languages fluently and confidently when transferring to the secondary school.*
- *Welsh is the language of communication at this school.*

It is used:

- in the school's day to day administration.*
- as the occasional language (outside learning sessions)*
- as the language of morning assemblies and collective gatherings.*

Welsh is the principal language of learning – both presentational and recording – across the curriculum.

English is gradually introduced at foundation phase and then consistently regular use is made of it throughout Key Stage 2 for presentation and recording purposes– so that each child is expected to make confident use of it with respect to various curriculum fields by Y6.

DEFNYDDIO'R GYMRAEG

Mae iaith yn greiddiol i bob agwedd ar fywyd o fewn yr ysgol.

Yng Nghyfnod Allweddol 1 digwydd y rhan fwyaf o'r gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg, heb law am stori a sgwrs yn achlysurol.

Yng Nghyfnod Allweddol 2 rhoddir blaenoriaeth i gefnogi plant wrth iddynt ddatblygu fel ysgrifennwyr, ddarllenwyr a siaradwyr yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Anelir at gyflawni hyn trwy gynnig amgylchedd lle rhoddir bri ar y Gymraeg a'r Saesneg yn ei hamrywiol weddau.

Am fod plant yn amrywio'n fawr yn y ffordd y maent yn datblygu yn ieithyddol fe drefnir i'r ddarpariaeth a wneir ar eu cyfer fod yn wahaniaethol o dro i'w gilydd.

MEDRAU DYSGU

"Arddull dysgu yw'r ffordd y mae pob dysgwr yn dechrau canolbwyntio ar wybodaeth newydd ac anodd ac yn ei phrosesu a'i chadw ar gof"

- Dunn, Beaudry & Klavas,
Survey of Research on Learning Styles 1989

Mae pob dysgwr yn unigryw ac yn yr un modd maent yn dysgu'n wahanol ac mewn ffordd unigryw. Bydd ein dulliau dysgu yma felly yn amrywio ac yn cyfuno gweithgareddau Gweledol, Clywedol a Cinesthetig gan annog disgyblion i ryngweithio ac i fod yn weithredol yn y dysgu.

Rhoddir pwyslais mawr ar ddatblygu Medrau Meddwl y disgyblion - ein nod yw datblygu gallu pob unigolyn i'w lawn botensial.



USE OF WELSH

Language has a core role to play in all aspects of school life.

At Key Stage 1, the majority of activities take place through the medium of Welsh, with the exception of an occasional story and talk.

At Key Stage 2, priority is given to supporting children in their development as writers, readers and speakers through the medium of both Welsh and English.

The objective is to achieve this through providing an environment in which pride of place is given to Welsh and English in their various guises.

As children vary greatly in their linguistic development, differentiated provision is made for them from time to time.

LEARNING SKILLS

"Learning Skills are the way that every learner concentrates on new and difficult information, processing and remembering".

- Dunn, Beaudry & Klavas, Survey of Research on Learning Styles 1989

Every learner is unique and learns in different ways which are unique to them. Our teaching styles at Penybryn therefore vary and combine Visual, Audial and Kinaesthetic activities - encouraging pupils to interact and to be active in their learning.

We put great emphasis on developing the pupils' Thinking Skills - our aim is to develop every pupil to his/her full potential.



CYFLWYNO IAITH - CYMRAEG A SAESNEG

Byddwn yn trefnu sefyllfaoedd dysgu yn yr ysgol a fydd yn rhoi cyfle i blant i ddatblygu trwy iaith. Dyma graidd hanfodol addysg - twf ieithyddol a thwf trwy iaith. Rhaid diwallu anghenion ieithyddol trwy gynnig **profiadau amrywiol newydd** a chyfle i'w mynegi a'u hail fyw.

Yn nhermau ei brofiad y mae ystyried datblygiad iaith plentyn. Trwy brofiad y mae plentyn yn dysgu. Trwy roi mynegiant i'w brofiad y mae plentyn yn ei wneud yn real iddo'i hun, a thrwy **siarad ac ysgrifennu** y mae'n rhoi trefn ar ei feddwl ac ar ei brofiadau.

Ym mlynnyddoedd cyntaf y plentyn yn yr ysgol ceisir sicrhau fod sylfeini ieithyddol cadarn yn cael eu gosod a bod y sgiliau'n datblygu'n gyda'i gilydd. Canolbwyntir ar y cychwyn ar **ymateb llafar yn bennaf** wrth i blentyn ymddiddori mewn amrywiol weithgareddau. Bydd y rhaglen waith yn gofalu am roi cyfle i blentyn i leisio ei sicrwydd a'i ansicrwydd, ei fwynhad a'i bryder, ei lawenydd a'i ofid, ei obaith a'i ofnau. Byddwn yn ceisio arwain ac ysgogi'r plentyn i **sylwi'n fanwl** ar yr arbennig, a thrwy hynny ddatblygu'r synhwyrâu. Rhoddir cyfle hefyd i **wrando** ar ryddiaith a barddoniaeth ac i'w darllen eu hunain. Bydd y dysgu yn rhoi cyfle i blentyn i **ymateb i ysgogiadau** o bob math - darluniadau, cerddoriaeth etc., yn rhoi cyfle i wrando a sylwi ar brofiadau pobl eraill.

Yn ogystal ceir cyfle i greu trwy ysgrifennu, trwy waith thematig, trwy arlunio a gwaith llaw. Rhoddir digon o gyfle i'w fynegi ei hun a chreu rhywbeth sy'n werthfawr ynddoi'i hun. Amcenir at gael cydbwysedd ac amrywiaeth yn y tasgau a'r profiadau ieithyddol gan ddefnyddio ystod eang o symbyliadau. Byddwn yn annog plant i ysgrifennu i bwrpas ac at gynulleidfaoedd gwahanol gan roi'r pwyslais dyladwy i broses. Byddwn hefyd yn gofalu am amser digonol a chyfle i gydweithio.


Byddwn yn ymateb i waith yn gadarnhaol a synhwyrus gan ddangos bod ymdrech plentyn yn cael ei werthfawrogi a bod y **cynnwys** yn cael ei barchu. Nid yw'r athrawon yn cywiro pob camgymeriad a welir yng ngwaith plant oherwydd na all y plant fewnoli gormod o reolau ar untro. **Yn hytrach, edrychir ar gywirdeb fel rhywbeth sydd yn cael ei feithrin yn y tymor hir.**

Rhoddir cyfle i blant i brofi amrywiaeth o lyfrau deunydd cyhoeddedig er mwyn pleser a gwybodaeth; bydd hyn yn fodd hefyd i ddatblygu ymwybyddiaeth feirniadol, gwerthfawrogiad llenyddol, boddhad, gwerthoedd a sgiliau casglu gwybodaeth.

Yn naturiol bydd sgiliau ieithyddol plant yn datblygu mewn cymhlethdod wrth iddynt aeddfedu. Asesir cynnydd yn rheolaidd drwy fanylu ar enghreifftiau o waith plant i geisio darganfod a yw'r ddarpariaeth a'r profiadau a gynnig iddynt yn addas ar eu cyfer. Yn ogystal, cedwir samplau arwyddocaol ym mhroffil unigol pob plentyn. Byddwn hefyd yn asesu drwy gyfeirio at y meini prawf a geir yn lefelau'r targedau cyrhaeddiad yn nogfennau'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Framwaith llythrennedd a rhifedd Cenedlaethol

Mae framwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol wedi ei drefnu I gynnwys holl agweddau curicwlaid yr ysgol. Bydd safonau llythrennedd a rhifedd wedi eu gosod ar gyfer pob blwyddyn yn yr ysgol. Asesir rhain yn dymhorol ac yn flynyddol. Gosodir prawf cenedlaethol I blant B1,2,3,4,5,6 yn flynyddol mewn sgiliau darllen a rhifedd.



INTRODUCING LANGUAGE - WELSH AND ENGLISH

We will be arranging teaching situations in the school which will give the children the opportunity of developing through language. This is the integral **centre** of education - language growth and growth through language. The needs of language must be satisfied through offering **various new experiences** and the opportunity to express and re-live them.

The child's linguistic development is considered in terms of **experience**. By expressing his/her experience, it becomes real to him/her and through **talking and writing** he/she puts his/her mind and experience in order.

During the child's first years at school, attempts are made to ensure strong linguistic foundations are set, and that the skills develop in tandem. Initially, concentration is on the **spoken reaction mainly**, as the child takes an interest in various activities. The work programme will ensure that the child has the opportunity to **voice** his assurances and doubts, his enjoyment and displeasure, happiness and worries, his/her hopes and fears. We will attempt to lead and impel the child to **observe carefully** the special, and through this develop the senses.

Opportunities are also given for **listening** to prose and poetry, and to **read** it for themselves. This teaching will give the child the opportunity to **respond to different stimulants** - pictures, music etc., whilst also giving him/her the chance to observe other people's experiences.

In addition, they have the opportunity to create, through writing, dramatic work, art and handwork. Plenty of opportunities are given for the child to express him/herself and create something that is precious in itself. We aim at achieving a balance and variety in the linguistic tasks and experiences, using a vast range of stimulants. We will urge the children to write purposely and for different audiences, giving **process** due emphasis. We shall also ensure plenty of time and opportunities to work together.


We shall **react to work** positively and sensitively, making it obvious that the child's efforts are appreciated and that the **contents** are respected. The teachers do not correct every error in the children's work, because children cannot absorb too many rules at one time. **Instead, accuracy is looked on as something that is fostered over a long period.**

The children are given every opportunity to sample a variety of books and published materials for pleasure and information, this will also be a way of developing a critical understanding, an appreciation of literature, pleasure, values and skills needed for gathering information.

Naturally, children's linguistic skills will develop more complicatedly as they mature. Progress is assessed regularly by concentrating on examples of children's work to try and discover if the provisions and experiences offered to them is sufficient for their needs. In addition, significant samples are kept in each child's personal profile. We shall also be assessing by referring to the test guidelines laid down in the target attainment levels of the National Curriculum.

Literacy and Numeracy Framework

The literacy and numeracy national framework is organised to implement all aspects of the curriculum. Standards in literacy and numeracy are set for each year group. These aspects are assessed termly and yearly. National numeracy and literacy tests are set every year for Yrs 2,3,4,5,6.



MATHEMATEG

Yn Ysgol Penybryn, anelwn at arfogi pob plentyn gyda medrau mathemategol sylfaenol sydd eu hangen mewn bywyd bob dydd, annog technegau ymchwilio a datrys problemau gwaith pen, a darparu dilyniant a chynnydd drwy Gyfnodau Allweddol 1 a 2 y Cwricwlwm Cenedlaethol, a thrwy hynny alluogi pob plentyn i gyflawni ei wir botensial ym mhob agwedd o'r pwnc hwn.

Drwy gydol eu blynyddoedd yn yr ysgol hon, rhoddir i'r plant brofiad eang o Fathemateg drwy waith ymarferol, arsylwi, trafod, cyfarpar 2D a 3D. gemau a phosau, a deunyddiau addas fel bo'r angen. Lle bynnag y bo'n angenrheidiol, anogir y plant i ddewis y cyfarpar mwyaf addas i gwblhau tasg benodol.

Ceir cyfrifiaduron a chyfrifianellau ar gyfer y plant a byddwn yn adolygu ac yn adnewyddu'r ddarpariaeth o ddeunyddiau yn ein hysgol yn rheolaidd. Credwn ei bod yn bwysig iawn annog a chynnwys cysylltiadau mathemategol gyda holl agweddau'r cwricwlwm.

Drwy hyn i gyd, gobeithiwn ddatblygu sylfaen lwyddiannus i ddysgu pellach ac i roi i'r plant yr her y mae mathemateg yn ei gynnig, a chaniatáu iddynt brofi'r hwyl sydd yn aml yn eisiau yn y pwnc hwn.



MATHEMATICS

Our aims at Ysgol Penybryn are to equip every child with the basic Mathematical skills required in every day life, to encourage, investigative and problem-solving techniques mental skills and to provide continuity and progression through Key Stages 1 and 2 of the National Curriculum, thus enabling every child to achieve their true potential in all areas of this subject.

Throughout their years at our school the children are given a wide experience of Mathematics through practical work, observation, discussion, 2D and 3D apparatus, games and puzzles, appropriate materials as required. Wherever necessary, the children are encouraged to select apparatus best suited to perform a particular task.

Computers and calculators are available to the children and we regularly review and renew the provision of materials in our school.

We find it very important to encourage and include mathematical links with all aspects of the curriculum. Through all this, we hope to develop a successful foundation for future learning and to present children with the challenge that Mathematics offers, and allow them to experience the fun which is so often lacking from this subject.



DEFNYDD O DECHNOLEG GWYBODAETH YN YR YSGOL

Wrth ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth yn yr ysgol mae'r disgyblion yn cael cyfle pan yn briodol i ddefnyddio'r Rhyngwrwyd. Rhwydwaith byd-eang o gyfrifiaduron yw'r Rhyngwrwyd sy'n cynnwys miliynau o dudalennau o wybodaeth. Mae llawer o'r wybodaeth yn ddefnyddiol ac yn gymorth i waith y disgyblion ym mhob pwnc yn yr ysgol. Gall y disgyblion hefyd ddefnyddio e-bost i anfon negeseuon at ddefnyddwyr eraill ar draws y byd.

Cyn defnyddio'r Rhyngwrwyd rhaid i bob disgybl sicrhau caniatad eu rhieni/gwarcheidwaid ac felly rhaid ichi lenwi, arwyddo a dychwelyd y ffurflen ar waelod y dudalen i'r ysgol.

Yn anffodus mae rhywfaint o'r deunydd sydd ar y We Fyd Eang yn anghyfreithlon, yn ffiadd ac yn anaddas i blant. Er hyn mae'r ysgol yn credu bod y manteision a ddaw yn sgil defnyddio'r Rhyngwrwyd yn llawer mwy na'r anfanteision.

Er mwyn ceisio sicrhau na fydd y disgyblion yn mynychu safleoedd anaddas ar y We bydd athrawon yn goruchwyllo y defnydd a wna'r disgyblion o'r Rhyngwrwyd yn ystod y gwersi ac yn arwain disgyblion at adnoddau pwrpasol. Defnyddir meddalwedd arbennig sydd yn hidlo ac yn atal mynediad a safleoedd anaddas.

Dylai'r disgyblion bob amser ddilyn canllawiau'r ysgol ar gyfer defnyddio'r Rhyngwrwyd.



TECHNOLEG GWYBODAETH

Defnyddir Technoleg Gwybodaeth drwy gwricwlwm yr ysgol. Ar hyn o bryd, mae gennym ar gyfartaledd tri PC a bwrdd gwyn rhyngweithiol ym mhob dosbarth yn yr Adran Iau, dau yn Adran y Babanod. Mae gennym hefyd droli o liniaduron di-wifr sy'n sicrhau bod y disgyblion yn cael profiad unigol rheolaidd o ddefnyddio cyfrifiadur. Yn ogystal mae yna sganiwr, camera digidol, a rhwydwaith y We.

Defnyddia'r plant gemau mathemateg a iaith, cronfeydd data a phrosesu geiriau, modelau cyfathrebu a rheoli er mwyn datblygu medrau rhif, datrys problemau, iaith, mynediad, adferiad, ymholi, dylunio a chyffyrddell.

TECHNOLEG

Mewn Technoleg, addysgir y plant gyda medrau sylfaeol dynodi angen, dylunio ac adeiladu, ac arfarnu eu dyluniad.

INFORMATION TECHNOLOGY AT SCHOOL

While using Information Technology at school the pupils are given the opportunity when appropriate to work using the Internet. The Internet is a complex chain of computers linked all over the world that gives access to millions of pages of information. Much of the information is useful and helps the child with his/her work in all aspects of the curriculum. The pupils are also able to use the e-mail to send messages to other users across the world.

Before using the Internet each pupil must ensure they have permission from their parents or guardian and so the relevant form must be filled and signed and returned to school.

Unfortunately some of the information that is on the web is illegal disgusting and/or unacceptable for children. Despite this the school believes the benefits outweigh the disadvantages that arise while using the Internet.

To ensure the pupils do not visit unsuitable sites on the web they are monitored carefully by the teachers and are guided to suitable sights. Special software that filters information and refuses access to unsuitable sites is installed into all the equipment.

Pupils should always follow school guidelines when using information technology.



INFORMATION TECHNOLOGY

Information Technology is used throughout the school's curriculum. At present we have at least three PC's in each class, together with interactive white boards in all classes in the juniors and two in the infants section. The school also has a wireless lap top trolley with 10 laptops which ensures regular individual use of a computer. We also have Internet link, scanner, and a digital camera.

The children use Maths and Language games, Data Bases and word Processing communication and management models to develop number, problem solving, language entry, retrieval, interrogation design and keyboard skills.

TECHNOLOGY

In Technology, the children are taught the basic skills of identifying a need, designing and constructing and then evaluating their design.

GWYDDONIAETH

I blant, golyga Gwyddoniaeth archwilio, darganfod ac ymchwilio i'r byd o'u cwmpas. Mae'r gweithgareddau canfod hyn yn cynorthwyo'r plant i gasglu'r profiad sy'n angenrheidiol er mwyn deall y byd y maent yn byw ynddo.

Yn Ysgol Penybryn, ceisiwn wneud y profiadau hyn mor eang ac amrywiol â phosibl. Anogwn y plant i arsylwi, gofyn cwestiynau, ateb cwestiynau, arbrofi neu ymchwilio, canfod patrymau drwy arsylwi, rhesymu'n rhesymegol a chyfathrebu eu canfyddiadau.

DAEARYDDIAETH

Amcan y Cwricwlwm Daearyddiaeth yw rhoi i'r plentyn synnwyr o le - adref, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, fel a ddynodir yn y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Mae'r dysgu wedi ei seilio ar holi, annog plant i ofyn cwestiynau ac ymchwilio am atebion, gan ddefnyddio yr hyn a wyddant eisoes amdanynt eu hunain ac o adnoddau data.

Gan ddechrau gyda hwy eu hunain, eu cartref a'u hysgol, ânt rhagddynt i astudio Dyffryn Dysynni a lleoedd eraill o ddiddordeb daearyddol yng Nghymru â'r Deyrnas Unedig.

Drwy'r meysydd astudio hyn, bydd y plant yn datblygu eu medrau mapio, eu gwybodaeth am leoedd, daearyddiaeth ddynol, ffisegol a amgylcheddol.



Ymdrinnir â gwaith maes ar safle'r ysgol a mannau yn y gymdogaeth megis Ynys Maengwyn. Trefnir cyrsiau preswyl i ddisgyblion Blwyddyn 5 yng Nghanolfan awyr agored Arthog, s a Chaerdydd i Bl6 (gan aros am 2 noson) - bob flwyddyn.

SCIENCE

Science for children means exploring, discovering and investigating the world around them. These finding out activities help children gather the experiences they need to understand the world in which they live.

At Ysgol Penybryn, we aim to make these experiences as broad and varied as possible. We encourage the children to observe, ask questions, answer questions, experiment or investigate, find patterns in observations, reason logically and communicate their findings.

GEOGRAPHY

The aim of the Geography Curriculum is to give a child a sense of place - at home, nationally and internationally, as set out in the National Curriculum.

The learning is enquiry based, encouraging children to ask questions and research answers, using what they already know about themselves and from Data resources.

Beginning with themselves their home and school, they go on to study the Dysynni Valley and other places of geographical interest in Wales and the United Kingdom.

Through these study areas, the children develop their mapping skills, knowledge of places, human, physical and environmental geography.

Fieldwork is undertaken within the school grounds and neighbourhood areas such as Ynys Maengwyn. Residential courses are arranged for Year 5 pupils at Arthog Outdoor Centre, and Cardiff in Yr6 (staying for 2 nights in the area).



HANES

Yr amcan gyda Hanes yw datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y plant o'u gorffennol a'i effaith ar y presennol a'r dyfodol.

Anogir nifer o fedrau gan gynnwys:-
Dealltwriaeth o gronoleg, defnydd o ffynonellau hanesyddol, y gwahaniaeth rhwng deunyddiau craidd, storïau a barn, effaith newid, achos ac effaith, ac yn bwysicaf oll, meddwl ymholgar.

Defnyddiwn amrywiaeth eang o adnoddau yn ein hastudiaeth, yn cynnwys:
pobl, llyfrau, arteffactau, deunyddiau clywedol, ymweliadau.

Mae cefndir a phrofiadau'r plant eu hunain yn chwarae rhan bwysig yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar.

Yn ystod y Cyfnod Sylfaen, cyflwynir Hanes drwy stori, pobl, bywydau'r plant eu hunain a'u teuluoedd, arferion a digwyddiadau ac astudiaeth o ffotograffau, arteffactau a'r amgylchedd lleol.

Yn ystod cyfnod Allweddol 2, mae'r plant yn astudio datblygiadau allweddol o orffennol Cymru a Phrydain o'r cyfnod cyn-Rufeinig i'r cyfnod modern.

Anogir dealltwriaeth o gronoleg a newidiadau dros gyfnod hir o amser drwy astudiaeth o fywyd bob dydd ym mhob pwnc.



HISTORY

The aim of History is to develop in children the awareness and understanding of the past and its effect upon the present the future.

*Many skills are encouraged including:-
An understanding of chronology, the use of historical sources; the difference between source material, stories and opinions, the effects of change, cause and effect and most importantly - a questioning mind.*

*We make use of a wide variety of resources in our studies which include:-
people, books, artefacts, audio-visual material, visits.*

Children's own background and experiences play a very important part particularly in the early years.

During the Foundation Stage, history is introduced through story, people, the children's own lives and families, customs and events and the study of photographs, artefacts and the local environment.

During Key Stage 2, the children study key developments from both Wales and Britain's past from pre-Roman to modern times.

An understanding of chronology and changes over a long period of time are encouraged through the study of daily life in each topic.



ADDYSG GORFFOROL

Mae Addysg Gorfforol yn rhan bwysig o'r cwricwlwm. Yn ogystal â datblygu cryfder, stamina a chyd-drefniant corfforol mae hefyd yn annog cydweithrediad a hunan-reolaeth.

Caiff holl blant yr ysgol gyfle i gymryd rhan mewn gwaith cyfarpar, dawn, drama a medrau gemau.

Gall disgyblion Blwyddyn 2 ac uwch gymryd rhan mewn gwersi nofio. Anogir hwy hefyd i gymryd rhan mewn gemau pêl-droed, rygbi, pêl-rwyd, rownderi, rygbi cyffwrdd a chriced. Cynhelir dyddiau chwaraeon ar gyfer y cyfnod Allweddol 1 a chyfnod Allweddol 2 yn flynyddol ynghyd â theithiau cerdded wedi eu trefnu ar hyd yr amryw lwybrau cyhoeddus yn ein hardal.

Drwy weithgareddau a drefnir gan Campau'r Ddraig a gan Urdd Gobaith Cymru, darperi'r cyfle i'r disgyblion gystadlu ar lefel genedlaethol.

CHWARAEON

Byddwn yn anelu i ehangu profiadau chwaraeon plant yr ysgol trwy drefnu gemau / cystadlaethau ar eu cyfer gyda phlant ysgolion y dalgylch. Weithiau, byddwn yn trefnu iddynt gystadlu â phlant ysgolion cyfatebol o ran rhif, mewn ardaloedd eraill yng Ngwynedd a Phowys.



Mae gennym hefyd glwb Chwaraeon y Ddraig a gaiff ei gynnal ar ôl ysgol yn wythnosol. Ar hyn o bryd mae'r clwb yn canolbwyntio ar weithgareddau rygbi, criced, gymnasteg ac athletau.

Yn y dalgylch, trefnir rhaglen gyda'r nod o gynnal un gystadleuaeth y tymor - i blant CA2 yn bennaf e.e. Uni-hoc, pel-rwyd, pêl-droed, athletau.

Byddwn hefyd yn paratoi rhaglen ar gyfer yr ysgol ei hun, i gynnwys Mabolgampau, Gala Nofio, Twrnament pêl-droed a phêl-rwyd.

Mae gweithgareddau'r Urdd a Champau'r Ddraig yn caniatáu i'r plant gystadlu ar lefelau sirol a chenedlaethol.

Mae cyswllt da gan yr ysgol gyda chanolfanau hamdden, clwb criced, clwb hoci a golff.

Mae dau aelod o flwyddyn 6 yn cael ei ddewis fel llysgenhadon chwaraeon yn flynyddol. Disgwylir i ddisgyblion newid i ddillad addas ymarfer corff ar gyfer pob gwrs

PHYSICAL EDUCATION

P.E. is an important part of the Curriculum. As well as developing children's strength, stamina and co-ordination it encourages co-operation and self control.

All children in the school have the opportunity to participate in apparatus work, dance, drama and games skills.

Year 2 pupils and onwards are able to take part in swimming lessons. They are also encouraged to take part in team games such as football, rugby, netball, rounders, touch rugby and cricket. Sports days for Key Stage 1 and Key Stage 2 are held annually as well as organised walks along the many public footpaths that are available in our area.

Through events organised by Dragon Sports and the Welsh League of Youth Movement (Urdd Gobaith Cymru). Pupils are provided with the opportunity of competing on a national level.

GAMES

We aim to provide a wide range of competitive games for our pupils which involves all the primary schools in our immediate catchment area, whilst arranging others against schools of similar number of pupils in Gwynedd / Powys. There is also a weekly after-school Dragon Sports Club for KS2 pupils. The club is currently concentrating on rugby, cricket, gymnastics and athletics.

At least one main competitive activity is arranged by the local primary schools, for KS2 pupils. They include: Uni-hoc, netball, football and athletics.

We also arrange within the school a programme of activities which include Sports, Swimming Gala, football, and netball tournaments.

Urdd and Dragon Sports competitions also allow the pupils to compete on a county and national basis.

There is good contact between the school, leisure centre and local cricket, hockey and golf clubs.

Two members of year 6 class are chosen to represent the school as sports ambassadors every year. Children need to wear appropriate PE clothes for all these activities.



CERDDORIAETH


Mae Cerddoriaeth hefyd yn chwarae rhan bwysig yn natblygiad y cwricwlwm. Anogir pob disgybl i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o brofiadau.

Darperir hwy gyda phrofiadau emosiynol a deallusol. Mae cerddoriaeth yn rhan o addysg plentyn sy'n ei alluogi i ddysgu amdano'i hun a'i werth fel unigolyn yn ei gymuned; mae gwranddo, perfformio a chreu yn sail i brofiadau mewn sain sydd o werth cadarnhaol i bob plentyn.

Rhoddir cyfleodd i bob plentyn drwy wasanaethau boreol rheolaidd, cynhyrchiadau Nadolig, gweithgareddau'r Urdd (ar lefel leol a chenedlaethol), diddori grwpiau a chymdeithasau lleol, a.y.b.

Trefnir cyrsiau offerynnol unigol drwy gytundeb Gwasanaeth Lefel yr Awdurdod - guitar, trwmped, corn, clarinet, oboe, saxophone, fflwt yn ogystal â phrofiadau ensemble.

Cynhwysir hefyd wersi recorder ar gyfer holl ddisgyblion yn yr Adran Iau.



MUSIC

Music also plays an important role in the development of the curriculum. All pupils are encouraged to participate in a wide variety of experiences.

They will be provided with both emotional and intellectual experiences. Music is a part of the child's education which enable s him/her to learn about himself and his value as an individual in his community. Listening, performing and creating are the basis for sound experiences which are of positive value to each child.

Opportunities are provided for every child by means of regular morning assemblies, Christmas productions - Urdd activities (both at local and national levels) entertaining local groups and societies etc.

Individual instrumental courses are arranged through the Authority's Service Level of Agreement – guitar, trumpet, horn, clarinet, oboe, saxophone, flute as well as ensemble experiences.

Recorder lessons are also provided for pupils in the Junior Department.

CELF

Yn Ysgol Penybryn, ein prif ysgogiad yw annog mynegiant creadigol ac arbrofi gyda deunyddiau. Gadawn i'r plant ddatblygu eu syniadau eu hunain, gan awgrymu a dangos techneg newydd ar yr adeg gywir, ac ymchwilio ac arbrofi cyn cael eu cyflwyno i'r dechneg nesaf. Mae gan bob crefft ei lle yn sbectrwm y cwricwlwm. Ni ellir ymdrin ag unrhyw grefft yn ynysig heb fenthyg medrau a ddefnyddir ar gyfer crefft arall. Mae'r plant yn datblygu medrau trin a thrafod, cydgysylltu a barnu, gwneud penderfyniadau a.y.b. drwy waith creadigol, ond mae pynciau fel mathemateg, daearyddiaeth, hanes a gwyddoniaeth yn ddibynnol ar fedrau sylfaenol celf a chrefft er mwyn eglurhad ac esboniad.

Cynorthwyir y plant i ddeall amrywiaeth y technegau artistig drwy roi cynnig ar wneud lluniau bywyd llonydd, brasluniau, tirluniau, collages a.y.b. Dysgant am ddylanwad amrywiaeth eang o artistiaid enwog a byddant yn arbrofi gydag amryfal arddulliau. Cant hefyd gyfle i weithio gydag artistiaid preswyl.

Arddangosir gwaith y plant drwy'r ysgol i gyd, er mwyn iddynt sylweddoli bod eu hymdrechion yn cael eu trysori a'u gwerthfawrogi.

Un agwedd arbennig o'r gwaith yw Crochendy'r Ysgol. Sefydlwyd hon gyda chefnogaeth y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Bydd plant yr ysgol yn elwa o'r profiad hwn sy'n rhoi persbectif gwahanol i Gelf yn ei wahanol gyfryngau.



ART

At Ysgol Penybryn, our prime motivation is to encourage creative expression and experimentation with materials. We allow the children to develop their own ideas, suggesting and demonstrating a new technique at the appropriate time, and to explore and experiment before being introduced to the next technique.

Each craft has its place in the spectrum of the curriculum. No craft can be worked in isolation without borrowing skills used for another. The children develop the skills of manipulation, co-ordination and judgement, decision-making etc., through creative work, but subjects such as maths, geography, history and science are dependent on basic art and craft skills for clarification and illustration.

The children are helped to understand the diversity of artistic techniques by attempting still life, sketches, landscapes, collages etc. They learn about the influences of a wide range of famous artists and experiment with a variety of styles. They are also afforded the experience of working with artists in residence.

The children's work is displayed all over the school in order for them to realise that their efforts are valued and appreciated.

The special aspect of the Art Curriculum is the 'Penybryn Pottery' which was established with the assistance and support of the P.T.A., Societies and Clubs in the town. The children thoroughly enjoy the experience provided as well as introducing Craft in its varied perspectives.



CREFYDD

Nid yw'r ysgol hon yn dal cysylltiad uniongyrchol a ffurfiol ag unrhyw enwad crefyddol.

Y mae'r addysg grefyddol a gyflwynir yn seiliedig ar faes llafur cydnabyddedig yr Awdurdod. Gellir archwilio copi o'r maes llafur hwn yn yr ysgol.

Fe ellir gwneud trefniadau ar gyfer plant nad yw eu rhieni am iddynt fynychu'r gwasanaethau crefyddol neu astudiaethau cyffelyb.

Mae cyd addoli yn digwydd yn ddyddiol.

ADDYSG BERSONOL A CHYMDEITHASOL

Mae addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd, a dinasyddiaeth yn galluogi plant i ddatblygu'n aelodau iach, annibynnol a chyfrifol o'r gymdeithas. Anogwn ein plant i chwarae rhan gadarnhaol i gyfrannu at fywyd yr ysgol a'r gymuned yn ehangach. Drwy wneud hyn, cynorthwywn hwy i ddatblygu eu synnwyr o hunan-werth.

Ein nod fel ysgol drwy gyflwyno addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd, a dinasyddiaeth ydyw galluogi'r plant i:

- wybod a deall yr hyn a olygir gan ffordd iach o fyw
- fod yn ymwybodol o faterion yn ymwneud â diogelwch a hylendid
- ddeall beth sy'n gwneud perthynas dda gydag eraill
- barchu eraill
- fod yn aelodau annibynnol a chyfrifol o gymuned yr ysgol
- fod yn aelodau cadarnhaol a gweithredol o gymdeithas ddemocrataidd
- ddatblygu perthnasedd da gydag aelodau eraill yr ysgol a'r gymuned ehangach

RELIGIOUS EDUCATION

The school has no direct or formal affiliation.

The religious education provided is based on the agreed syllabus, a copy of which may be examined at the school.

Suitable arrangements can be made for children whose parents object to them receiving religious instruction or attending religious services.

Collective worship is held daily at the school.

PERSONAL AND SOCIAL EDUCATION

Personal, social and health education (PSHE) and citizenship enables children to become healthy, independent and responsible members of society. We encourage our pupils to play a positive role in contributing to the life of the school and the wider community. In so doing we help develop their sense of self worth.

Our aim as a school by introducing Personal, social and health education is to enable the children to:

- *know and understand what constitutes a healthy lifestyle*
- *be aware of safety issues and cleanliness*
- *understand what makes for good relationships with others*
- *have respect for others*
- *be independent and responsible members of the school community*
- *be a positive and active member of a democratic society*
- *develop self-confidence and self-esteem, and make informed choices regarding personal and social issues*
- *develop good relationships with other members of the school and the wider community*

Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd

Bydd Ysgol Penybryn yn gweithredu nôd Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd trwy gyfrwng y canlynol:

1. Gosod sylfaen gadarn i'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen
2. Sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni eu potensial yn y Gymraeg fel pwnc ac fel cyfrwng addysgol
3. Gweithredu'r Cwricwlwm Cymreig
4. Meithrin ymwybyddiaeth o hunaniaeth ddiwylliannol a threftadaeth Cymru ymysg disgyblion yr ysgol
5. Sicrhau bod pob agwedd o fywyd bob dydd yr ysgol a'i chymuned yn Gymraeg a Chymreig
6. Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweithgareddau allgyrsiol
7. Cefnogi staff i ddatblygu eu hyder a'u sgiliau yn y Gymraeg yn y gweithle

Gwynedd Primary Schools Welsh Language Charter

Ysgol Penybryn will implement the objective of Gwynedd Primary Schools Welsh Language Charter through the following measures:

1. *Establish firm foundations for the Welsh Language at the Foundation Phase*
2. *Ensure that every pupil achieves their potential in the Welsh language both as a subject and an educational medium.*
3. *Implement the Cwricwlwm Cymreig*
4. *Nurture awareness of the cultural identity and heritage of Wales amongst pupils at the school.*
5. *Ensure that all aspects of school and community life are through the medium of Welsh and are of a Welsh ethos.*
6. *Promote use of Welsh in extra-curriculum activities*
7. *Support staff to develop their confidence and their Welsh language skills in the workplace.*

**Gwybodaeth
am
Drefniadau
Gweithredu**

*Information
on
School
Procedures*

MAE'R TUDALENNAU SY'N DILYN YN CYNNWYS GWYBODAETH AM:

- Deddf Rhyddid Gwybodaeth
- Adrodd i Rien
- Aseu
- Cyswllt Cynradd - Uwchradd
- Polisi Anghenion Arbennig
- Trefniadau arbennig ar gyfer plant gydag anghenion addysgol arbennig
- Trefn Gwyno
- Cyfle Cyfartal
- Amddiffyn Plant
- Atal yn Gorfforol
- Ethos Yr Ysgol
- Gofal Bugeiliol
- Côt Ymddygiad A Disgyblaeth
- Dogfennau sydd ar gael
- Polisi Goruchwilio
- Gwyliau
- Presenoldeb / Absenoldeb
- Plant yn Wael
- Gadael Yr Ysgol
- Trefniadau Cinio
- Codi Tâl am Weithgareddau Addysgol
- Polisi Tynnu Lluniau
- Polisi Iechyd a Diogelwch

THE FOLLOWING PAGES CONTAIN INFORMATION ON:

- *Freedom of Information*
- *Reporting To Parents*
- *Assessment*
- *Primary / Secondary Liaison*
- *Special Needs Policy*
- *Provisions for pupils with Special educational needs*
- *Complaints Procedure*
- *Equal Opportunities*
- *Child Protection*
- *Physical Restraint*
- *Ethos of the School*
- *Access for disabled pupils*
- *Code Of Conduct*
- *The Documentation Available*
- *Supervision Arrangements*
- *Holidays*
- *Attendance / Absence*
- *Illness and Injury*
- *Leaving School*
- *Dinner Arrangements*
- *Charging For Activities*
- *Photographs Policy*
- *Health and Safety*

Cynllun Cyhoeddi ar gyfer Ysgolion – Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 **Cyflwyniad**

- ♦ Hwn yw Cynllun Cyhoeddi Ysgol Gynradd Penybryn yn nodi'r wybodaeth a gyhoeddir yn unol â gofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
- ♦ Disgwylir i ysgolion nodi'n glir yr wybodaeth a wneir yn gyhoeddus (math o wybodaeth, sut y cyhoeddir ynghyd â'r gost).
- ♦ Mae'r cynllun yn cynnwys gwybodaeth sydd eisoes wedi'i gyhoeddi ynghyd â rhai bwriadau at y dyfodol. Mae'r wybodaeth a nodir yn ein cynllun cyhoeddi ar gael fel copi papur (am gost sydd yn cyfateb i'r costau cynhyrchu).
- ♦ Ni fyddwn yn datgelu unrhyw wybodaeth gyfrinachol a gedwir ganddom. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth bersonol a gwybodaeth sydd o natur fasnachol sensitif.
- ♦ Mae'r Cynllun Cyhoeddi yn cydymffurfio â'r model ar gyfer ysgolion a gymeradwywyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth.

Fformat

1. Nodau ac amcanion yr ysgol
2. Categoriâu o wybodaeth
Gellir categorio'r wybodaeth a fydd ar gael dan y penawdau a ganlyn
 - i) Llawlyfr Ysgol
Gwybodaeth a gyhoeddir yn llawlyfr yr ysgol
 - ii) Adroddiadau Llywodraethwyr
Adroddiad blynyddol y llywodraethwyr at y rhieni
Cofnodion cyfarfodydd corff llywodraethu'r ysgol
 - iii) Polisiâu cyffredinol

Cytundeb Ysgol-cartref	Polisi Addysg Rhyw
Polisi Bwlio	Polisi Ymddygiad
Polisi Cydraddoldeb hiliol	Polisi codi tal am weithgareddau
Polisi amddiffyn plant	
Defnydd Gwefannau Rhwydweithio Cymdeithasol	
 - iv) Polisiâu cwricwlaidd
Datganiad cwricwlwm
Polisi Iaith
Polisi Anghenion Addysg Arbennig
3. Sut i gael copïau
Os rydych am gopi o unrhyw un o'r dogfennau a nodir yn y cynllun yma gellir
 - i. anfon llythyr wedi'i ddynodi'n eglur 'CAIS CYNLLUN CYHOEDDI' i'r ysgol.
Os nad yw'r wybodaeth a ddeisyfir ar gael yna gellir gwneud ymholiad pellach drwy
 - ii. anfon neges e-bost i pennaeth@pbtwyn.gwynedd.sch.uk
 - iii. gysylltu â phennaeth yr ysgol ar 01654 710237 (rhwng 8.30 a 9.00 bob bore).
4. Talu am wybodaeth Darperir copïau papur o'r uchod yn rhad ac am ddim i rieni'r ysgol; codi'r tal o £5 ar gyfer darparu copi papur ychwanegol neu ar gyfer unigolion nad ydynt yn rhieni.

Publication Scheme for Schools – Freedom of Information Act 2000

Introduction

- ♦ This is the Publication Scheme for Ysgol Penybryn specifying the information published in accordance with the requirements of Freedom of Information Act 2000.
- ♦ Schools are expected to clearly specify the information publicly divulged (type of information, form of publication and cost).
- ♦ The scheme contains already published information as well as future intentions. The information specified in our publication scheme is available in paper copy form (at a cost equivalent to production costs).
- ♦ We do not divulge confidential information stored by us. This includes personal information and that of sensitive commercial nature.
- ♦ The Publication Scheme complies with the model for schools approved by the Information Commissioner.

Format

1. The school's aims and objectives
2. Categories of Information
The available information may be categorized under the following headings
 - i) School Handbook
Information published in the school handbook
 - ii) Governors Reports
Governors annual report to parents
Minutes of school governing body meetings
 - iii) General policies

School-home Agreement	Sex Education Policy
Policy on Bullying	Policy on Behaviour
Policy on racial equality	Policy on charging for activities
Child protection policy	
Policy on Use of Social Networking Sites	
 - iv) Curricular policies
Curriculum statement
Language Policy
Special Education needs Policy
3. How to obtain copies
If you wish to obtain a copy of any of the documents listed in this scheme, then the
 - i. Send a letter clearly labelled 'PUBLICATION SCHEME APPLICATION'
 - ii. Sending an e-mail message to pennaeth@pbtwyn.gwynedd.sch.uk
 - iii. Contacting the school headmistress on 01654 710237 (between 8.30 and 9.00 every morning)
4. Charging for information
Paper copies of the above are provided free of charge for parents whose children attend the school; a fee of £5 is charged for providing an additional paper copy or for individuals who are not parents.

ADRODD I RIENI

Hysbysir y rhieni o gynnydd eu plentyn yn rheolaidd a gwahoddir hwy'n ffurfiol i gyfarfod yr athro/athrawes i drafod gwaith y plant yn ystod y flwyddyn ysgol.

Anogir rhieni hefyd i gyfarfod â'r athro dosbarth i drafod materion penodol yn ymwneud â'u plentyn. Yn ystod ail hanner tymor yr Hydref, bydd yr athrawon yn gwahodd y rhieni i'r ysgol i ddelio gydag anawsterau dysgu penodol a gododd yn ystod y tymor cyntaf yn eu dosbarth newydd.

Gofynnir yn ffurfiol i rieni plant sy'n mynychu'r dosbarth meithrin a derbyn gyfarfod â'r athro/athrawes dosbarth yn ystod y tymor cyntaf i asesu a monitro cyflwyniad y plentyn i fywyd Ysgol Penybryn.

Paratoir adroddiad ffurfiol ysgrifenedig ar ddiwedd pob blwyddyn ysgol. Adroddir i rieni ar asesiadau athrawon a'r lefelau a gyrhaeddodd pob plentyn ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 a 2, mewn cyfarfodydd ffurfiol.

Yn Ysgol Penybryn, credwn y dylai athrawon a rhieni weithio mewn partneriaeth agos er lles ein plant.

REPORTING TO PARENTS

Parents are regularly informed of their child's progress and are formally invited during the school year to meet and discuss their children's work with the teacher.

Parents are also encouraged to meet the class teacher to discuss specific matters relating to their child. During the latter half of the Autumn Term, teachers invite parents to school to deal with specific learning difficulties which have arisen during their first term in their new class.

Parents of children attending the Nursery and Reception Class are formally requested to meet the class teacher during the first term to assess and monitor their child's introduction to life at Ysgol Penybryn.

A formal written report is made at the end of each school year. Teachers assessment and the level attained by each child at the end of Key Stage 1 and 2 are reported to parents during the formal meetings.

At Ysgol Penybryn, we believe that teachers and parents should work in close partnership for the benefit of our children.

ASESU

Mae asesu parhaol wedi bod yn rhan naturiol a phwysig o waith athrawon cydwybodol erioed. Mae hyn yn sail i baratoi gwaith addas ar gyfer eich plentyn chwi. Bydd yr asesiadau yma yn cael eu rhoi ym mhroffiliau y plant.

Darperir adroddiad cynhwysfawr i rieni ar holl raglen waith y disgyblion yn flynyddol.

Yn ôl rhaglen y Cwricwlwm Cenedlaethol fe fydd asesiadau athrawon yn cael eu paratoi ar gyfer diwedd Cyfnod Allweddol 2 (blwyddyn 6) ac asesiadau safonau athrawon ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 (blwyddyn 2). Bydd adroddiad llawn o lefel y cyrhaeddiad y disgyblion yn y gwahanol bynciau yn cael ei baratoi ar gyfer y rhieni erbyn diwedd y flwyddyn addysgol. Darperir amserlen yn flynyddol fydd yn cynnwys manylion llawn am drefniadaeth yr asesiadau.

Yn fuan yn Nhymor yr Hydref, bydd canlyniadau'r asesiadau blynyddoedd 2 a 6 ar gael i chwi yn yr ysgol drwy gysylltu â'r Pennaeth. Bydd y wybodaeth yma yn cael ei gyhoeddi'n swyddogol yn Adroddiad Blynyddol y Corff Llywodraethol.

CYSWLLT CYNRADD - UWCHRADD

Mae cyswllt pendant rhwng y Cynradd/Uwchradd. Yn achlysurol caiff plant Bl 5 a Bl 6 ymweld ag Ysgol Uwchradd, Tywyn i dreulio diwrnod neu ddau mewn awyrgylch fyd newydd. Cawn ninnau ddefnyddio eu hadnoddau pan fydd cyfle. Teimla'r ysgol fod y cysylltiad o fudd i'r plant.

ASSESSMENT

We assess the children on a continual assessment basis in all National curriculum subjects. The assessments will be found in each child's development profile.

A detailed annual report is sent to parents at the end of the school year, covering all curricular areas.

Following the National curriculum programme, teacher assessments are prepared for the end of Key Stage 2 (Year 6) and at the end of Key Stage 1 (Year 2). A full report of attainment levels of each pupil in the National Curriculum subjects will be prepared for the parents at the end of each school year. A timetable is followed each year indicating the arrangements for the assessments.

Early in the Autumn Term, results of the assessment of year 2 and 6 pupils are available at the school by contacting the Headteacher. This information will be included in the Annual Governors Parents report.

PRIMARY / SECONDARY LIAISON

There is a strong link between the primary and secondary schools. We are able to use their facilities when available, and Years 5 and 6 have the opportunity to spend one or more days in their new environment at the Tywyn Secondary school occasionally. As a school we feel that this link benefits the children.

POLISI ANGHENION ARBENNIG

Mae Deddf Addysg 1993 yn gosod cyfrifoldeb pwysig ar Gorff Llywodraethol pob ysgol, dros wneud darpariaeth addysgol arbennig i'w holl ddisgyblion sydd gan anghenion addysg arbennig naill ai gyda datganiadau o anghenion addysgol arbennig neu hebddynt.

1. Egwyddorion

- Sicrhau cyfle cyfartal cwricwlaidd a chymdeithasol i blant A.A.A. lle bo hynny'n bosibl.
- Darparu addysg wahaniaethol oddi mewn i'r ysgol.
- Sefydlu gweithdrefn i adnabod anghenion A.A.A.
- Sefydlu partneriaeth â'r rhieni ynglyn â rhaglen A.A.A.
- Cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau statudol perthynol i'r maes, megis yr Awdurdod Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Sicrhau ymateb ysgol gyfan i anghenion A.A.A. a pheidio cyfyngu cyfrifoldeb i staff penodol.

2. Amcanion

- Sicrhau fod trefn yn yr ysgol i adnabod yn gynnar y plentyn sydd ag anawsterau all lesteirio ei addysg.
- I gasglu gwybodaeth ynghyd gan athrawon ac eraill i sicrhau y ceir y ddealltwriaeth orau am natur anawsterau'r plentyn.
- Sicrhau y caiff y ddarpariaeth ei gwneud ar gyfer unrhyw ddisgybl A.A.A.
- Sicrhau cydweithrediad a chefnogaeth y rhieni ac eraill mewn perthynas ag adnabod a darparu gwasanaeth.

Yn ystod y flwyddyn, gweithredir y polisi uchod yn unol â gofynion Deddf Addysg 1993.

Cyd-gysylltydd yr ysgol ydi Miss Angharad Davenport; Mr Jeremy Murfin sy'n cefnogi'r gwaith a'r gofynion ar ran y Corff Llywodraethol.

Mae trefn arbennig wedi ei mabwysiadu a'i gweithredu i gofnodi holl anghenion y plant y cyfeirir atynt yn ôl y Còd Ymarfer.

Os gwelir bod plentyn yn cael anawsterau mewn unrhyw agwedd o'i ddatblygiad, yna rhoddir profion safonedig iddo/iddi, yn unol â arweiniad yr Awdurdod Addysg.

Fel ymateb i'r asesiad hwnnw, cynllunir Cynllun Addysg Unigol, hefyd rhaglen waith unigol ar ei gyfer fel bo'r angen, gan dargedu iaith gyntaf y plentyn wrth ei brofi a'i asesu.

Os nad yw'r plentyn yn dangos cynnydd boddhaol wedi cyfnod o 3 mis dyweder, yna fe ddilynir y drefn adolygu a gelwir arbenigwyr i'w gyfarfod a'i asesu, yn ôl yr angen.

Bydd y rhieni yn cael gwybod am bob cam a gymerir a gofynnir iddynt gyfrannu yn weithredol ym mhob agwedd o'r asesu.

Cedwir enw pob plentyn sy'n cael eu gosod ar y gwahanol gamau hyn ar Gofrestr Anghenion Arbennig yr ysgol.

Cefnogir y gwaith o adnabod yr anghenion ynghyd â gweithredu ar y camau priodol gan Miss Angharad Davenport.

Gosodir rhai plant 'ar ddatganiad'. Bydd rhai o'r plant yma yn derbyn eu haddysg yn yr Uned Addysg Arbennig a leolir yn yr Adran Iau - yng ngofal Miss Davenport. Bydd hefyd yn ymweld â phlant datganiad a disgyblion sydd ag anghenion addysgol eraill yn ysgolion y dalgyllch yn ystod ei wythnos waith.

Yr Awdurdod Addysg a'r ysgol sy'n rhannol - gyfrifol am yr Uned hon. Gan mai yn y boreau'n unig y gweithreda'r Uned, byddwn yn integreiddio'r plant yn y brif-ffrwd yn ystod sesiynau y prynhawn.

SPECIAL NEEDS POLICY

"The 1993 Education Act places special responsibilities on the Governing Bodies of each school, to make a special educational provision for all of its pupils who have special educational needs, either with or without statements or special educational needs".

1. Principles

- *Ensure an equal curricular and social opportunity for S.E.N. children where possible.*
- *Provide a differentiated education within the school.*
- *Establish a procedure to recognise SEN needs.*
- *Establish a partnership with parents regarding the SEN programme.*
- *Co-operate effectively with statutory agencies relevant to this field, such as the Health Authority and the Social Services.*
- *Ensure a whole school response to special educational needs and not restrict the responsibility to specific staff.*

2. Aims

- *Ensure that the school has a procedure for early recognition of a pupil who has difficulties which could hinder his/her education.*
- *To collect information from teachers and others in order to ensure the best understanding of the nature of the child's difficulties.*
- *Ensure that a proposition is made for any child with SEN.*
- *Ensure the co-operation and support of the parents and others in relation to*
- *recognising and providing a service.*

The above policy was carried out during the year according to the requirements of the 1993 Education Act.

The school's co-ordinator is Miss Angharad Davenport and Mr Jeremy Murfin represents the Governing Body.

A specific method of work has been adopted to record all the needs of the children that are referred to, according to the Code of Practice.

If a child is seen to have difficulty in any area of his development, then he/he is assessed and carefully monitored using Standardised tests recommended by the Education Authority.

Following analysis of results an Individual Education Programme, an Individual programme of work is reviewed and if there is a need, then arrangements are made for a specialist to further assess the child's individual needs.

Parents are notified at each stage of the process, and they are asked to contribute and support the assessment procedures.

The names of pupils who are placed at each stage of the Code of Practice are kept on the school's Special Needs Register.

Miss Angharad Davenport is responsible for identifying the Educational Needs, also for working on and developing the needs at each stage of the Code of Practice.

Some of the children identified as having Special Educational Needs will be 'Statemented', and some of these will be educated in the Special Needs Unit, which is in the Junior part of the school. Miss Davenport is responsible for this unit. She also visits statemented children and other pupils with special educational needs in other schools in the area.

The Education Authority and partly the school are responsible for this unit. Since the Unit is only open for the morning, the children are integrated into the main school system every afternoon.

**TREFNIADAU ARBENNIG AR GYFER PLANT
GYDAG ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG**

Mae'r ysgol hon wedi mabwysiadu polisi ysgol gyfan i hyrwyddo mynediad llawn i gwricwlwm eang a chytbwys ar gyfer pob plentyn, yn seiliedig ar Ddeddf Addysg 1993, a hefyd y Cwricwlwm Cenedlaethol diwygiedig.

Y mae gennym drefn ysgol gyfan i adnabod plant ag anghenion arbennig, anawsterau dysgu ac yn eu tro plant galluog iawn, dan arweiniad Mrs Angharad Gwalchmai.

Mae gennym ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer plant ar ddatganiad a gweithredir yn ôl anghenion y datganiad. Byddant yn integreiddio gyda phlant y prif-lif. Bydd plant datganiad ysgolion eraill y dalgylch yn mynychu'r dosbarth yma hefyd.

Bydd disgyblion ar ddatganiad yn dilyn eu haddysg yn y prif-lif ond gyda lefel briodol o gymorth, sy'n amrywio yn ôl anghenion unigol y disgyblion.

Athrawes Addysg Arbennig Gwybyddiaeth a dysgu yw Mrs Angharad Gwalchmai.

**PROVISIONS FOR PUPILS WITH
SPECIAL EDUCATIONAL NEEDS**

This school has adopted a whole school policy to facilitate full entry to a broad and balanced curriculum for each child based on the Education Act 1993 and also the re-viewed National Curriculum.

There is a whole school strategy of identifying children with special educational needs, learning difficulties and very gifted children. Our co-ordinator is Mrs Angharad Gwalchmai.

We have support and provision which caters for the needs of some children which have been placed on formal statements. Such pupils are integrated in the main stream for afternoon activities.

Statemented pupils will receive their education in the main-stream but with an appropriate level of support, which varies according to the pupils' individual needs.

Mrs Angharad Gwalchmai is cognition and learning teacher.

TREFN GWYNO

Mae'r Awdurdod Addysg Leol, yn unol â gofynion yr Ysgrifennydd Gwladol, dan Adran 23 o Ddeddf Diwygio Addysg 1980, wedi sefydlu trefn i ystyried cwynion am y modd y mae cyrff llywodraethu'r ysgolion â'r Awdurdod Addysg yn gweithredu mewn perthynas â chwricwlwm ysgol a materion eraill cysylltiedig. Mae'r drefn hon wedi ei hamlinellu mewn dogfen bwrsasol yn y Gymraeg a'r Saesneg sydd ar gael yn yr ysgol. Darperir copi'n rhad ac am ddim, yn ôl y gofyn, i unrhyw rieni sy'n dymuno gwneud cwyn dan y trefniadau hyn, a gall yr Awdurdod ddarparu copi mewn iaith heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg os bydd hynny'n angenrheidiol. Pwysleisir, fodd bynnag, y gellir ymdrin â llawer o gwynion yn gyflym ac effeithiol drwy ystyriaeth anffurfiol yn seiliedig ar drafodaethau gyda'r Pennaeth/Prifathrawes. Hwn yw'r cam rhesymol cyntaf, a bydd y Corff Llywodraethu'n disgwyl bod y cam yma wedi ei gyflawni cyn cyflwyno'r gwyn yn ffurfiol mewn achosion eithriadol.

Dylid cysylltu â'r ysgol i wneud apwyntiad i drafod unrhyw gwyn gyda'r Pennaeth / Prifathrawes.

CYDRADDOLDEB

Amcan yr ysgol yw:-

- Sicrhau cyfleoedd i'r holl ddisgyblion o ba bynnag gefndir cymdeithasol y dônt, cyfleoedd cyfartal i fechgyn a merched, i blant galluog iawn a phlant llai galluog.
- Meithrin agweddau cadarnhaol mewn perthynas â hil a chrefydd a rhyw.
- Osgoi cyflyrru ac ystrydebau, yn enwedig mewn perthynas â'r cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn croesawu ei dyletswyddau o dan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiedig) 2000. Rydym wedi ymrwymo i:

- Hyrwyddo cyfle cyfartal
- Hyrwyddo cysylltiadau da rhwng aelodau gwahanol grwpiau a chymunedau hiliol, diwylliannol a chrefyddol.
- Cael gwared o wahaniaethu anghyfreithlon.

Mae holl athrawon yn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth ddiweddaraf ar y ddeddfwriaeth ac yn gwybod sut i ymdrin a digwyddiadau hiliol yn yr ysgol.

Miss Ellyw Evans sydd yn gyfrifol am gydraddoldeb hiliol yn yr ysgol a cynrychiolydd y Corff Llywodraethol yw Mr John Gray Jones.

COMPLAINTS PROCEDURE

The Local Education Authority, in accordance with the requirements of the Secretary of State, under Section 23 of the 1988 Education Reform Act, has established a procedure to consider complaints concerning the way schools' Governing Bodies and the Education Authorities Act in relation to the schools' curriculum and other related matters. This procedure is outlined in a document in Welsh and English which is available at the school. A copy will be provided free of charge as required to any parent seeking to make a complaint under these arrangements and the authority can, if necessary, provide a copy in a language other than Welsh or English. It is emphasised, however, that many complaints can be dealt with quickly and effectively by informal consideration based on discussions with the Headteacher. This is the first reasonable step, and the Governing Body would expect that this step would have been completed before presenting the complaint formally in exceptional cases.

An appointment can be made to discuss any complaint with the Headteacher by contacting the school.

EQUALITY

The School aims:-

- *To ensure opportunities of all our pupils from whatever social background, equal opportunities for boys and girls, for extremely able and less able children.*
- *To promote positive attitudes to race, religion and sex.*
- *To avoid conditioning and stereo-typing especially as regard to the Curriculum.*

The school welcomes its duties under the Race Relations (Amendment) Act 2000.

We are committed to:

- *Promoting equality of opportunity*
- *Promoting good relations between members of different racial, cultural and religious groups and communities*
- *Eliminating unlawful discrimination*

All teaching staff are responsible for keeping up-to-date with legislation dealing with race equality and know how to deal with racist incidents at school.

Miss Ellyw Evans is responsible for racial equality at the school, and John Gray Jones is the named Governor.

AMDDIFFYN PLANT

Er mwyn diogelu lles plant mae'r ysgol yn dilyn trefniant y Sir a Chanllawiau Amddiffyn Plant Gwynedd. Golyga hyn mai lles y plentyn yw'r brif ystyriaeth. Mae'r ysgol a chysylltiad agos rhwng Gwasanaethau Cymdeithasol, yr Heddlu, Ymddiriedolaeth Iechyd, Gwasanaeth Prawf, asiantaethau gwirfoddol.

Os oes rheswm i feddwl fod plentyn yn cael ei esgeuluso gan ei rhieni neu bobl eraill sy'n gofalu amdano, neu ei fod yn cael ei drin yn wael (e.e. dioddef creulondeb corfforol, ei gam-drin yn rhywiol neu ei boenydio mewn ffordd anghorfforol) gan unrhyw un. Mae'n rheidrwydd ac yn ofynnol i'r ysgol weithredu a chysylltu gyda'r awdurdodau perthnasol.

ATAL YN GORFFOROL

Wrth ddelio a phlant yr ysgol o ddydd i ddydd mae achosion yn codi ble mae cyfrifoldeb ar yr athro i atal y plentyn yn gorfforol.

Gallai hyn fod:-
rhag iddo niweidio ei hun
neu rhag iddo/iddi niweidio plentyn arall yn y dosbarth
rhag gwneud niwed i athro neu aelod arall o staff
rhag creu difrod i'r ysgol.

Os ydy ymddygiad gwael yn parhau a bod y pennaeth yn ei ystyried yn amharu ar ddiogelwch neu addysg gweddill y plant fe fydd y plentyn yn cael ei wahardd. Os oes unrhyw ddifrod fe fydd y bwrdd llywodraethwyr yn ystyried y mater.

CHILD PROTECTION

So as to protect children's welfare, the school follows the County's arrangements and Gwynedd's Child Protection guidelines. This implies that the child's welfare is the main consideration. The school maintains close contact with the Social Services, the Police, Health Trust, Probation service, voluntary agencies.

If there are grounds for suspecting that a child is being neglected by his/her parents or other people who are his/her guardians, or is being ill-treated, (e.g. suffer physical abuse, sexual abuse or tormented in a non-physical way), by anybody, the school is required to and must act and contact the relevant authorities.

PHYSICAL RESTRAINT

By dealing with children in school from day to day occasionally it is the responsibility of the teacher or headmistress to restrain the child.

This could mean:-

Restraint from injuring himself

Restraint from injuring another child

Restraint from injuring a teacher, or other member of staff

Restraint from damaging equipment in the school

If this behaviour continues and the headmistress considers it to be impairing on other children's education, a threat to teacher or child safety and breaching the bounds of health and safety in the school the child will be suspended from school. Costs of damage to school property will be assessed by the governing body.

ETHOS YR YSGOL

Mae'r agweddau sydd yn ymwneud ag ethos yr ysgol hon yn disgyn o dan y penawdau hyn:-

- Perthynas - meithrin pawb i ddangos parch at gyd-ddyn ac eiddo. Bod yn oddefgar tuag at eraill. Annog pawb i rannu amser ac adnoddau gyda'i gilydd. Bod yn barod i gynnal y naill a'r llall.
- Cyfleoedd Cyfartal - rhoi yr un cyfle i bawb ymwneud â phopeth sydd yn gysylltiedig â bywyd yr ysgol.
- Trefniadaeth - cael pawb i fod yn rhan o drefniadaeth yr ysgol drwy weithredu yn rheolaidd ar syniadau naill a'r llall.
- Rheolaethol - gweithio fel tîm i sicrhau fod pob maes yn cael ei drefnu a'i reoli yn effeithiol gan y Staff, y Disgyblion, y rhieni a'r Llywodraethwyr.
- Y Cwricwlwm - mae hwn yn cynnwys popeth a gynllunir yn ffurfiol ac anffurfiol gan yr ysgol.
- Asesu - asesu neu arfarnu pob agwedd o fywyd yr ysgol mor aml ag sydd bosib.
- Amgylchfyd - creu hinsawdd hapus a diogel. Creu awyrgylch i symblu'r plant. Annog trefn a glendid tu mewn a thu allan i'r ysgol.
- Y gymuned - bod yn barod i fod yn rhan ohoni ac iddi hithau deimlo yn rhan ohonom ninnau.

ETHOS OF THE SCHOOL

Those aspects to do with this school's ethos come under the following headings:-

- *Relationship - foster everyone to show respect towards fellow-man and property. Be tolerant towards others. Encourage everyone to share time and resources with one another. Be willing to support one another.*
- *Equal Opportunities - provide everyone with an equal opportunity to be involved with everything that is associated with school life.*
- *Arrangements to get everyone involved in the school's arrangements through regularly acting upon one another's ideas.*
- *Management - work as a team so as to ensure that each field is effectively organised and managed by the Staff, the Pupils, the Parents and the Governors.*
- *The Curriculum - this includes everything that is planned both formally and informally by the School.*
- *Assessment - assess or evaluate all aspects of school life as often as possible.*
- *Environment -create happy and secure conditions. Create a stimulating environment for the children. Encourage order and hygiene both within and outside the school.*
- *The Community - be willing to be a member of it and that the community also feels that it has links with us.*

CYNYDDU MYNEDIAD I'R YSGOL AR GYFER DISGYBLION AG ANABLEDDAU

Diwygiodd Deddf AAA ac Anabledd 2001 Ran 4 o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 trwy osod dyletswyddau newydd ar Awdurdodau Addysg Lleol (AALlau) ac Ysgolion mewn perthynas â disgyblion anabl a darpar ddisgyblion. Y prif ddyletswyddau yw:

- Peidio â thrin disgyblion anabl yn llai ffafriol.
- Cymryd camau rhesymol i osgoi gosod disgyblion anabl dan anfantais sylweddol.

Mae'r Ddeddf yn gosod cyfrifoldeb ysgolion i ddatblygu cynllun hygyrchedd ar y corff llywodraethol.

Y Cynllun Hygyrchedd - Caiff y cynllun hygyrchedd ei ddatblygu a'i weithredu i:

- gynyddu'r graddau y gall disgyblion anabl gymryd rhan yng nghwricwlwm yr ysgol;
- wella amgylchedd corfforol ysgolion fel y gall disgyblion anabl fanteisio mwy ar addysg a gwasanaethau cysylltiedig;
- wella'r ffordd y trosglwyddir i ddisgyblion anabl, wybodaeth ysgrifenedig a roddir i ddisgyblion nad ydynt yn anabl. Dylid gwneud hyn o fewn cyfnod rhesymol ac mewn ffurfiau sy'n cymryd i ystyriaeth y dulliau cyfathrebu sydd orau gan ddisgyblion neu rieni.

Y Ddyletswydd i Gynllunio -rheid:

- Cynyddu'r graddau y gall disgyblion anabl gymryd rhan yng nghwricwlwm yr ysgol. Mae ysgolion yn gyfrifol am ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys ar gyfer pob disgybl ac mae ganddynt swyddogaeth allweddol o ran cynllunio i gynyddu mynediad i'r cwricwlwm i ddisgyblion ag anableddau. Mae hyn yn cwmpasu nid yn unig addysgu a dysgu ond cwricwlwm ehangach yr ysgol megis cymryd rhan mewn clybiau ar ôl ysgol, gweithgareddau hamdden, chwaraeon a diwylliannol neu ymweliadau ysgol.
- Gwellu amgylchedd corfforol ysgolion.
- Gwellu trosglwyddo gwybodaeth i ddisgyblion ag anableddau.

Caiff y Cynllun ei arfarnu'n rheolaidd.

INCREASING ACCESS TO THE SCHOOL FOR DISABLED PUPILS

The SEN and Disability Act 2001 amended Part 4 of the Disability Discrimination Act 1995 by introducing new duties on LEA's and Schools in relation to disabled pupils and prospective pupils. The main duties are:

- *not to treat disabled pupils less favourably*
- *to take reasonable steps to avoid putting disabled pupils at a substantial disadvantage*

The Act places schools responsibility to develop an accessibility plan upon the governing body.

The Accessibility Plan - this is developed and implemented for:

- *increasing the extent to which disabled pupils can participate in the school curriculum*
- *improving the physical environment of schools to increase the extent to which disabled pupils can take advantage of education and associated services and*
- *improving the delivery to disabled pupils of written information which is provided to pupils who are not disabled. This should be done within a reasonable period of time and in formats which take account of views expressed by pupils or parents about their preferred means of communication.*

The Planning Duty must:

- *Increase the extent to which disabled pupils can participate in the school curriculum:- schools are responsible for providing a broad and balanced curriculum for all pupils and have a key role to play in planning to increase access to the curriculum for disabled pupils. This covers not only teaching and learning but the wider curriculum of the school such as participation in after school clubs, leisure, sporting and cultural activities or school visits.*
- *Improve the physical environment of the school*
- *Improve the delivery of information to disabled pupils*

The plan is reviewed regularly.

CÔD YMDDYGIAD A DISGYBLAETH

Mae strategaeth yr ysgol wedi ei gynllunio i atgyfnerthu'r arfer dda o ymddygiad da yn y cod hwn.

Mae'r prif argymhellion yn cael ei harddangos yn yr ysgol ac mae'r plant yn cael eu hatgoffa pan fydd angen gwneud hynny.

- **Parchwn ac ystyriwn ein gilydd**
- **Mae'r dosbarth yn le cysurus i weithio ynddo**
- **Rhaid i bob un ohonom weithio'n galed i wneud yr ysgol yn le iach a saff i fod ynddi**
- **Gorau chwarae - cyd chwarae**

